Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

At sylw – Jackie Burney
Swyddfa'r Cyngor Dedfrydu/
Office of the Sentencing Council
Steel House
11 Tothill Street
LLUNDAIN SW1H 9AJ

**Ein cyf / Our Ref:**
KMM
**Eich cyf / Your Ref:**

**Dyddiad:** 4 Mehefin 2013

**TRWY E-BOST A LLYTHYR**: consultation@sentencingcouncil.gsi.gov.uk

Annwyl Ms Burney

**YMGYNGHORIAD AR GANLLAW TROSEDDAU AMGYLCHEDDOL**

Ar 1 Ebrill 2013, cyfunodd y Corff Adnoddau Naturiol ar gyfer Cymru [a elwir yn Cyfoeth Naturiol Cymru] swyddogaethau Cyngor Cefn Gwlad Cymru, ynghyd â swyddogaethau datganoledig Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru.

Sefydlwyd Cyfoeth Naturiol Cymru gan Lywodraeth Cymru ac mae'n gorff statudol ag iddo rôl yn rheoleiddio a gorfodi materion amgylcheddol yng Nghymru. Ein pwrpas yw sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio yn gynaliadwy yn awr ac yn y dyfodol.

Mae gennym swyddogaethau helaeth. Maent yn cynnwys rheoli coedwigoedd a choetiroedd Cymru, rheoli llygredd, rheoleiddio gwastraff, rheoli adnoddau dŵr, rheoli perygl llifogydd ac arfordirol, pysgodfeydd, mordwyaeth a diogelu safleoedd a rhywogaethau gwarchodedig.

Ein nod yw sicrhau'r canlyniadau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd gorau posibl ar gyfer pobl a chymunedau Cymru yn awr ac yn y dyfodol. Ein gobaith yw sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a defnyddiwn bwerau gorfodi, yn cynnwys erlyn, lle y bo'n briodol.

Rydym yn croesawu'r cynigion y Cyngor Dedfrydu yn ei Ymgynghoriad ar Droseddau Amgylcheddol ac rydym yn cefnogi'r egwyddorion sydd yn y ddogfen Ymgynghori yn gyffredinol. O ran y cwestiynau a ofynnwyd, mae gennym sylwadau penodol ar y materion canlynol:-

**C2** – Rydym yn cytuno â'r grwpiau a argymhellir. Gofynnwn i chi ystyried cynnwys troseddau o dan Reoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Deunydd Pacio) 2007 a Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru a Lloegr) 2005 a Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005.

**C14/C16/C18** – Rhagwelir y bydd Llys y Goron yn ymdrin â rhai o'n materion erlyn o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 a Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010 lle bydd y dirwyon yn ddiderfyn. Awgrymwn y dylid ailedrych ar y cosbau ariannol amrywiol i sefydliadau mawr, canolig a bach er mwyn rhoi ystyriaeth i hyn.

**C25** - Er y nodir bod ffocws yr ymgynghoriad hwn yn ymwneud â throseddau amgylcheddol o dan adran 33 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 a Rheoliadau 12 a 38 (1),(2) a (3) o Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010, os gwneir argymhellion i ymestyn y canllawiau i gynnwys trefniadau eraill o fewn ein swyddogaethau, nodwch ein diddordeb gan y byddem yn croesawu'r cyfle i wneud sylwadau ar unrhyw ymgynghoriadau perthnasol pellach.

Fel partneriaid Taclo Tipio Cymru, rydym hefyd yn cefnogi'r sylwadau a ddarparwyd ar ran y bartneriaeth.

Os oes unrhyw gwestiynau gennych neu faterion yn codi o'n hymateb, cysylltwch â Katherine Morris, Prif Gyfreithiwr, Cyfoeth Naturiol Cymru, rhif ffôn : 029 2046 6246, e-bost: katherine.morris@naturalresourceswales.gov.uk

Yn ddiffuant,

Emyr Roberts

**EMYR ROBERTS**
Prif Weithredwr, Cyfoeth Naturiol Cymru

emyr.roberts@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Natural Resources Wales,
Tŷ Cambria, Newport Road, Cardiff CF24 OTP

Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria, Heol Casnewydd, Caerdydd CF24 0TP